# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 18 Medi 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynigion i gynnal ymchwiliad ac archwiliad o systemau archwilio a gwariant Busnes Rhyngwladol Cymru (WAQ54796)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r amcangyfrif o gostau'r ymchwiliad a'r archwiliad o systemau archwilio a gwariant Busnes Rhyngwladol Cymru (WAQ54797)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Pa broses dendr, os o gwbl, a gynhaliwyd i ddewis yr unigolyn/sefydliad i gynnal yr ymchwiliad a'r archwiliad o systemau archwilio a gwariant Busnes Rhyngwladol Cymru (WAQ54798)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pwy sydd wedi cael ei benodi i gynnal yr ymchwiliad a'r archwiliad o systemau archwilio a gwariant Busnes Rhyngwladol Cymru (WAQ54799)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Medi 2009***

Cyhoeddais ym mis Gorffennaf y cynhelir adolygiad fforensig allanol ac annibynnol o wariant a systemau a phrosesau archwilio Busnes Rhyngwladol Cymru. Yn dilyn ymarfer tendr cystadleuol, gan ddefnyddio trefniadau fframwaith Swyddfa Masnach y Llywodraeth, dewiswyd KPMG fel y sefydliad priodol i gynnal yr adolygiad hwnnw gyda chost o £129,000 (ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth). Rwy'n disgwyl gallu cyhoeddi ei ganfyddiadau yn y dyfodol agos.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio cyfleusterau ysgolion uwchradd cymunedol i gynnig hyfforddiant, sgiliau ac ymarfer corff i'w cymunedau lleol (WAQ5475)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Medi 2009***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu'r Grant Ysgolion Bro i awdurdodai a'u hysgolion. Caiff ysgolion eu hannog i weithio gyda phartneriaid er mwyn datblygu dulliau sy'n gywir ac sy'n diwallu anghenion disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned leol. Mae hyn yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod ysgolion wrth galon eu cymunedau a darparu amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau ar gyfer disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach yn ystod oriau ysgol a'r tu allan iddynt yn ogystal ag yn ystod gwyliau'r ysgol.
Caiff awdurdodau eu hannog i gynnal dadansoddiad o anghenion cyn iddynt gynllunio darpariaeth ar gyfer gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol yn eu cymunedau. Yn aml mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys hyfforddiant sy'n seiliedig ar sgiliau i oedolion a mwy o fynediad i gyfleusterau chwaraeon ysgolion. Mae adroddiadau diweddar Estyn wedi cyfeirio at well mynediad i safleoedd ac adnoddau ysgol a gwell cydberthnasau rhwng ysgolion a'u cymunedau.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at dargedau Tan 8 2010. (WAQ54794)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Medi 2009***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i wneud Cymru yn ddarparwr ynni gwyrdd blaenllaw. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad darged o sicrhau bod 4TWh o drydan y flwyddyn yn cael ei gynhyrchu drwy ynni adnewyddadwy erbyn 2010 a 7TWh erbyn 2020. Er mwyn bodloni'r targed ar gyfer 2010, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu bod angen cael 800MW o gapasiti ychwanegol drwy ffynhonellau gwynt ar y tir a 200MW arall drwy ffynhonell gwynt ar y môr a thechnolegau adnewyddadwy eraill.
Ar hyn o bryd rydym yn amcangyfrif y cynhyrchir dros 2TWh o'r trydan a ddefnyddir yng Nghymru drwy ffynonellau adnewyddadwy - hydro, gwynt, nwy tirlenwi, prosesau treulio carthffosiaeth a bio-màs anaerobig. Mae dros 300MW o gapasiti gwynt ar y tir yn weithredol, gyda 165MW arall wedi cael caniatâd cynllunio. Yn ogystal, mae ceisiadau am gapasiti dros 900MW wedi'u cyfllwyno i'r Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd neu i'r awdurdodau cynllunio lleol. Rydym yn hyderus y darperir cryn dipyn o gapasiti ychwanegol dros y blynyddoedd nesaf ac y gellir rhagori'n sylweddol ar darged 2020 o 7TWh.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Faint o gleifion sydd wedi cael eu trin â Viagra ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf fesul ardal awdurdod lleol (WAQ54801)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Medi 2009***

Nid yw'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch yn cael ei chadw'n ganolog ond gellir cael gafael arni drwy Atebion Iechyd Cymru (HSW).

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A fydd rheidrwydd ar bob Bwrdd Iechyd Lleol gael Pwyllgorau Apeliadau a Chyllid Eithriadol, ac os felly, pryd gaiff y rhain eu sefydlu a pha mor aml y byddant yn cyfarfod. (WAQ54802)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa fesurau sydd ar waith i sicrhau bod Pwyllgorau Apeliadau a Chyllid Eithriadol Byrddau Iechyd Lleol yn agored ac yn dryloyw. (WAQ54803)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth fydd cyfansoddiad Pwyllgorau Apeliadau a Chyllid Eithriadol Byrddau Iechyd Lleol ar ôl 1af Hydref 2009. (WAQ54804)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Medi 2009***

Rhwng 1af Hydref 2009 a 31ain Mawrth 2010, bydd disgwyl i bob un o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol roi prosesau ar waith sy'n seiliedig ar drefniadau presennol ar gyfer ymdrin â cheisiadau am arian eithriadol ac adolygiadau o'r/apeliadau yn erbyn y penderfyniadau hynny. Yn yr un modd, bydd Comisiwn Iechyd Cymru yn parhau i ymdrin â cheisiadau am wasanaethau arbenigol o fewn ei weithdrefnau presennol. Caiff canllawiau dros dro eu cyhoeddi maes o law a fydd yn nodi'r arfer da y byddaf yn disgwyl i'r sefydliadau hyn eu dilyn o ran ymdrin â cheisiadau o'r fath a'u hadolygu, gan sicrhau bod tryloywder a bod yn agored yn rhan annatod o'r broses. Caiff trefniadau diwygiedig eu rhoi ar waith o 1af Ebrill 2010 i gwmpasu'r holl benderfyniadau ynghylch arian eithriadol a mynediad at driniaeth, gan gynnwys dull o adolygu ac apelio'n annibynnol, er mwyn cyd-daro â gweithrediad llawn Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae 'teulu' a 'chwalu teulu' yn cael eu diffinio yn ei phortffolio. (WAQ54807)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Medi 2009***

Ni ddiffinnir 'teulu' a 'theulu yn chwalu' yn fy mhortffolio.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa ganran o goedwigaeth Cymru a ailstociwyd gyda choed llydanddail yn 2008. (WAQ54791)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Medi 2009***

Yn 2008 ailstociwyd 2,300 erw o goetir yng Nghymru. Ailstociwyd oddeutu 35 y cant o'r ardal hon gyda choed llydanddail.

Daw'r wybodaeth hon o Ffeithiau a Ffigurau Coedwigaeth 2008 a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth ac mae ar gael yn www.forestry.gov.uk/statistics.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa ganran o goedwigaeth Cymru a ailblannwyd gyda choed llydanddail yn 2008. (WAQ54792)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Medi 2009***

Yn 2008 plannwyd 200 erw o goetir yng Nghymru. Roedd pob coeden a blannwyd yn yr ardal hon yn goeden lydanddail.

Daw'r wybodaeth hon o Ffeithiau a Ffigurau Coedwigaeth 2008 a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth ac mae ar gael yn www.forestry.gov.uk/statistics

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pryd mae'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno rheoliadau o ran defnyddio coleri cŵn sy'n rhoi sioc drydanol. (WAQ54793)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The Minister for Rural Affairs issued a Written Statement on the *Introduction of Legislation to Ban Electronic Trainig Devices* on 22 October 2009.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar ffioedd cyfreithiol a ffioedd syrfewyr wrth werthu tir. (WAQ54805)

***Rhoddwyd ateb ar 15 Hydref 2009***

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 24 Medi yn amlinellu swm yr arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar ffioedd cyfreithiol a ffioedd syrfewyr i werthu tir, mae fy sylw wedi'i dynnu at y ffaith bod y ffigur a ddarparwyd yn cynnwys taliadau i syrfewyr nad oeddent yn gysylltiedig â'r achosion o werthu tir. Rwy'n ymddiheuro am y camgymeriad hwn, ac rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ymchwilio ymhellach i'r mater hwn, er mwyn cael eglurhad.

Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwario £75,915.57 ar ffioedd cyfreithiol a ffioedd syrfewyr i werthu tir yn ystod blwyddyn ariannol 2008/09.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae 'teulu' a 'chwalu teulu' yn cael eu diffinio yn ei bortffolio. (WAQ54806)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Medi 2009***

Nid ydym o fewn y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gweithredu gyda diffiniad safonol o 'deulu' neu 'deulu yn chwalu'. Fodd bynnag, mae nifer o'r swyddogaethau a gyflawnir gennyf yn ymwneud â'r hyn y byddai cymdeithas yn cyfeirio ato fel teuluoedd a theulu yn chwalu.

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i sicrhau parhad cyllid ar gyfer gweithwyr plant Lloches Cymorth i Fenywod ar ôl iddo dderbyn argymhellion y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant sy'n ymwneud â darparu cyllid craidd ar gyfer gwasanaethau allweddol i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig, a phenderfyniad dilynol Plant mewn Angen i beidio â darparu dim cyllid ar gyfer prosiectau o'r natur hwn yn y dyfodol pan fydd cyllid ar gael o ffynonellau statudol. (WAQ54808)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Medi 2009***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i ddarparu £246,950 y flwyddyn i Cymorth i Fenywod Cymru er mwyn ariannu gweithwyr plant peripatetig ledled Cymru. O ran y cyllid gan Plant Mewn Angen, cefais gyfarfod gyda Phennaeth BBC Plant Mewn Angen ar 29 Mehefin 2009 ac mae trafodaethau ynglŷn â dyfodol eu cyllid hwy yn mynd rhagddynt